OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 812

# Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002

## RHAN —

## CYFFREDINOL

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â phersonau sy'n gweithredu fel gwarchodwyr plant neu'n darparu gofal dydd ar safle perthnasol yng Nghymru.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall—

ystyr "corff" ("*organisation*") yw corff corfforaethol;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "darpariaeth chwarae mynediad agored "("*open access play provision*") yw darpariaeth gofal dydd nad yw'n gofyn am y canlynol:

(a) trefniant ymlaen llaw gan y person cofrestredig i ddarparu gofal o'r fath; neu

(b) bod plant yn cael eu hebrwng gan riant neu berson cyfrifol arall yn ôl ac ymlaen i'r safle perthnasol;

ystyr "datganiad o ddiben" ("*statement of purpose*") yw'r datganiad sy'n cael ei lunio yn unol â rheoliad 3(1);

ystyr "datganiadau safonau gofynnol cenedlaethol" ("*statements of national minimum standards*") yw'r datganiadau safonau gofynnol cenedlaethol a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a wnaed gan y Cynulliad Cenedlaethol ar ddyddiad gwneud y Rheoliadau hyn;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Plant 1989;

ystyr "person cofrestredig" ("*registered person*") yw person sydd wedi'i gofrestru o dan Ran XA o'r Ddeddf fel gwarchodwr plant neu ddarparydd gofal dydd;

ystyr "person sy'n gyfrifol" ("*person in charge*"), mewn perthynas â gofal dydd, yw'r unigolyn sydd wedi'i benodi gan y person cofrestredig fel y person sy'n gyfrifol am ddarparu gofal dydd gwirioneddol ar y safle;

ystyr "plentyn perthnasol" ("*relevant child*") yw plentyn y mae person cofrestredig yn gweithredu fel gwarchodwr plant mewn perthynas ag ef neu, yn ôl fel y digwydd, y mae gofal dydd yn cael ei ddarparu iddo gan berson cofrestredig;

ystyr "safle perthnasol" ("*relevant premises*") yw'r safle lle mae'r person cofrestredig yn gweithredu fel gwarchodwr plant neu, yn ôl fel y digwydd, lle mae gofal dydd yn cael ei ddarparu gan berson cofrestredig;

ystyr "safonau gofynnol cenedlaethol" ("*national minimum standards*") yw'r safonau sydd wedi'u nodi yn y datganiadau safonau gofynnol cenedlaethol;

ystyr "swyddfa briodol" ("*appropriate office*")

(a) os yw swyddfa wedi'i phennu o dan baragraff (2) mewn perthynas ag unrhyw safle perthnasol, yw'r swyddfa honno;

(b) mewn unrhyw achos arall, yw unrhyw un o swyddfeydd y Cynulliad Cenedlaethol;

mae i "unigolyn cyfrifol" ("*responsible individual*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 4.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol bennu swyddfa sydd o dan ei reolaeth fel y swyddfa briodol mewn perthynas â safle perthnasol sydd wedi'i leoli mewn ardal benodol o Gymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad—

(a) at reoliad neu atodlen â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad yn y Rheoliadau hyn neu at yr Atodlen iddynt sy'n dwyn y rhif hwnnw;

(b) mewn rheoliad neu Atodlen at baragraff â rhif, yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheoliad hwnnw neu'r Atodlen honno sy'n dwyn y rhif hwnnw;

(c) mewn paragraff at is-baragraff â llythyren neu rif yn gyfeiriad at yr is-baragraff yn y paragraff hwnnw sy'n dwyn y llythyren honno neu'r rhif hwnnw.

(4) Yn y rheoliadau hyn, onid yw'n ymddangos bod bwriad i'r gwrthwyneb, mae cyfeiriadau at gyflogi person yn cynnwys cyflogi person p'un ai am dâl neu beidio, a ph'un ai o dan gontract gwasanaeth, contract ar gyfer gwasanaethau neu fel arall heblaw o dan gontract, a chaniatáu i berson weithio fel gwirfoddolwr, a dehonglir cyfeiriadau at gyflogai neu gyflogi person yn unol â hynny.

**Datganiad o ddiben**

**3.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig lunio mewn perthynas â'r gwaith gwarchod plant neu ddarparu gofal dydd y mae'r person wedi'i gofrestru ar ei gyfer, datganiad ar bapur ("y datganiad o ddiben") a rhaid i'r datganiad hwnnw gynnwys—

(a) datganiad o nodau ac amcanion;

(b) datganiad ynghylch ystod oedran, rhyw a nifer y plant y bwriedir darparu gofal ar eu cyfer gan y person cofrestredig ac ynghylch ystod yr anghenion y mae'r person yn bwriadu eu diwallu;

(c) datganiad ynghylch y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd i'w darparu neu i'w rhoi ar gael i blant perthnasol;

(ch) datganiad ynghylch y gweithgareddau sydd i'w darparu ac ynglŷn â'r iaith neu'r ieithoedd y darperir y gweithgareddau drwyddynt; a

(d) datganiad ynghylch y telerau a'r amodau y darperir gofal yn unol â hwy i blant perthnasol pan fydd y person cofrestredig yn gweithredu fel gwarchodwr plant neu'n darparu gofal dydd, yn ôl fel y digwydd.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) rhaid i'r person cofrestredig sicrhau ei fod yn gweithredu fel gwarchodwr plant neu fod gofal dydd yn cael ei ddarparu, yn ôl fel y digwydd, mewn modd sy'n gyson â'r datganiad o ddiben.

(3) Ni fydd dim ym mharagraff (2) nac yn rheoliad 20 yn ei gwneud yn ofynnol i'r person cofrestredig dorri neu beidio â chydymffurfio â'r canlynol nac yn ei awdurdodi i wneud hynny—

(a) unrhyw ddarpariaeth arall yn y Rheoliadau hyn; neu

(b) yr amodau sydd mewn grym am y tro mewn perthynas â chofrestru'r person cofrestredig o dan Ran XA o'r Ddeddf.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig—

(a) cadw'r datganiad o ddiben o dan sylw, ac os yw'n briodol, ei adolygu; a

(b) pryd bynnag y bo'n ymarferol, hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol o unrhyw adolygiad o'r fath o leiaf 28 diwrnod cyn y dyddiad y mae ei effaith i fod i ddechrau.